

Datganiad Preifatrwydd

Diweddarwyd ddiwethaf: Mawrth 2018

Mae'r dudalen hon yn dweud wrthy ch am ein polisïau mewn perthynas â chasglu Gwybodaeth Bersonol yr ydym yn ei chael gan ddefnyddwyr y wefan, defnyddio'r wybodaeth honno a'i datgelu.

Rydym yn defnyddio eich Gwybodaeth Bersonol er mwyn darparu'r wefan a'i gwella, ac at y dibenion hyn yn unig. Wrth ddefnyddio'r Wefan, rydych yn rhoi eich caniatâd i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth yn unol â'r polisi hwn, ac rydych yn cytuno i hynny.

Casglu Gwybodaeth a Defnyddio Gwybodaeth

Wrth i chi ddefnyddio ein Gwefan, efallai y byddwn yn gofyn i chi roi peth gwybodaeth bersonol adnabyddadwy i ni, y gallem ei defnyddio er mwyn i ni gysylltu â chi neu eich adnabod. Gallai gwybodaeth bersonol adnabyddadwy gynnwys eich enw ("Gwybodaeth Bersonol"), ond nid ydyw wedi ei chyfyngu at hyn. Efallai y byddwn hefyd yn cynnal arolygon o bryd i'w gilydd, gan ddefnyddio gwefannau trydydd parti fel *Survey Monkey*. Ymdrechwn i gadw'r data a gesglir gennym yn ddiennw, a'u defnyddio er mwyn gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig yn unig.

Data a Gofnodir

Fel llawer o weithredwyr gwefannau, rydym yn casglu gwybodaeth y mae eich porwr yn ei hanfon pryd bynnag y byddwch yn ymweld â'n Gwefan ("Data a Gofnodir").

Gallai'r data hyn gynnwys gwybodaeth fel cyfeiriad IP (Protocol Rhynggrwyd) eich cyfrifiadur, y math o borwr, fersiwn y porwr, y tudalennau yr ydych yn ymweld â nhw ar ein Gwefan, amser a dyddiad eich ymweliad, yr amser yr ydych yn ei dreulio ar y tudalennau hynny ac ystadegau eraill.

Yn ogystal, efallai y byddwn yn defnyddio gwasanaethau trydydd parti fel *Google Analytics* sy'n casglu'r data hyn, yn eu monitro ac yn eu dadansoddi. Mae'r data hyn yn hollol ddiennw ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth bersonol fel enw neu gyfeiriad e-bost.

Am ba mor hir fyddwn ni'n cadw eich data?

Rydym yn cadw'r data'n ddiogel yn unol â'n gweithdrefn ar gyfer cadw a rheoli dogfennau. Byddwn yn cadw'r holl ddata cyhyd ag a) bod y prosiect y cafodd y data eu casglu ar ei gyfer ar waith o hyd, a b) yn barhaus ond fel arfer caiff y data eu dileu ar ôl 10 mlynedd os nad ydym yn ymwneud â chi mwyach.

Cyfathrebu

Efallai y byddwn yn defnyddio eich Gwybodaeth Bersonol i gysylltu â chi gyda chylchlythyron, os ydych yn dewis eu derbyn.

Cwcis

Mae cwcis yn ffeiliau bach sy'n cynnwys ychydig bach o ddata, a gallent gynnwys manylion adnabod unigryw dienw. Caiff cwcis eu hanfon at eich porwr o wefannau a'u storio ar gof caled eich cyfrifiadur.

Fel llawer o wefannau, rydym yn defnyddio "cwcis" i gasglu gwybodaeth. Gallwch gyfarwyddo'ch porwr i wrthod pob cwci neu i ddangos pan fo cwci'n cael ei anfon. Ond, os nad ydych yn derbyn cwcis, efallai na fyddwch yn gallu defnyddio rhannau o'n Gwefan. Gweler ein Datganiad Cwcis am ragor o wybodaeth.

Diogelwch

Mae diogelwch eich Gwybodaeth Bersonol yn bwysig i ni ond cofiwch nad yw unrhyw ddull o drosglwyddo gwybodaeth dros y Rhyngrwyd, nac unrhyw ddull storio electronig, yn ddiogel 100%. Er ein bod yn ymdrechu i ddefnyddio dulliau sy'n fasnachol-dderbyniol i ddiogelu eich Gwybodaeth Bersonol, ni allwn warantu diogelwch llwyr.

Newidiadau i'r Polisi Preifatrwydd hwn

Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn mewn grym er mis Mawrth 2018 a bydd yn parhau i fod mewn grym ac eithrio mewn achosion lle bo newidiadau yn ei ddarpariaethau yn y dyfodol. Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar unwaith wedi eu postio ar y dudalen hon.

Cadwn yr hawl i ddiweddarau ein Polisi Preifatrwydd neu ei newid ar unrhyw adeg, a dylech edrych dros y Polisi Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd. Os ydych y parhau i ddefnyddio'r Gwasanaeth hwn wedi i ni bostio unrhyw newidiadau i'r Polisi Preifatrwydd ar y dudalen hon, byddwch yn cydnabod y newidiadau hynny ac yn cydsynio i gadw at y Polisi Preifatrwydd diwygiedig ac i fod yn rhwym wrtho.